**Cofnodion Drafft**

**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED HARLECH A GYNHALIWYD YN YR HEN LYFRGELL, HARLECH AM 7.00 O'R GLOCH 06.10.25**

**YMDDIHEURIADAU**

Cyng. James Maxwell (Is-Gadeirydd), Reg Chapman, Ceri Griffiths.

**PRESENNOL**

Cyng. Christopher Braithwaite (Cadeirydd), Tegid John, Edwina Evans, Wendy Williams, Gordon Howie, Mark Lewis, Simon Turner, Martin Hughes, a'r Cyng. Annwen Hughes a Gwynfor Owen (Cyngor Gwynedd).

'Roedd 3 aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar gychwyn y cyfarfod.

**Cwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd**

Cafwyd cwestiynau a sylwadau gan rhai o'r cyhoedd
Eisiau gwybod beth oedd y diweddaraf ynglyn a HAL ar ddeiseb. Datganwyd byddai y mater hwn yn cael ei drafod nes ymlaen yn y cyfarfod.
Tabl gweithredu a materion eraill byth ar y wefan a datganwyd gan y Cadeirydd y byddai yn edrych I mewn I hyn.

**CYHOEDDIADAU Y CADEIRYDD**.

Datganodd y Cadeirydd ei fod wedi cael mis prysur arall ag ei fod mewn trafodaethau gyda Cyfreithiwr ynglyn ar darn tir i fyny o'r Woodlands at Penllech a cytunwyd rhoid y mater hwn ar agenda mis nesa, bod eisiau cario allan archwiliad arall o'r coed sydd yn Llwybr Natur Bron y Graig. Hefyd cafwyd wybod bod Cyngor Gwynedd wedi derbyn 10 enw yn galw am etholiad i lenwi y sedd wag sydd yn bodoli ar y Cyngor.

**COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Medi 1af 2025 fel rhai cywir.

**MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Nid oedd dim materion yn codi o'r cofnodion.

**DATGAN BUDDIANT**

Datganodd y Cyng. Martin Hughes ddiddordeb yn y mater i wneud gyda HAL
Ni lofnodwyd Dogfen Datgan Buddiant Personol ganddoam ei fod wedi gwneud hyn yn barod yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor a bod y diddordeb yn y mater hwn yn rhedeg yn barhaol.
Datganodd y Cyng. Simon Turner ddiddordeb yn y mater i wneud gyda HAL ag fe arwyddwyd Dogfen Datgan Buddiant Personol ganddo
Datganodd y Cyng. Martin Hughes ddiddordeb yng nghais ariannol yr Hen Lyfrgell ag fe arwyddwyd Dogfen Datgan Buddiant Personol ganddo
Datganodd y Cyng. Edwina Evans ddiddordeb yng nghais ariannol yr Hen Lyfrgell ag fe arwyddwyd Dogfen Datgan Buddiant Personol ganddi
Datganodd y Cyng. Edwina Evans ddiddordeb yng nghais ariannol y Neuadd Goffa ag fe arwyddwyd Dogfen Datgan Buddiant Personol ganddi

**MATERION CYNGOR GWYNEDD**

Fe dderbyniwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng. Annwen Hughes – Adroddodd y Cyng. Annwen Hughes ers y cyfarfod diwethaf ei bod wedi cael gwybod bod fandaliaeth wedi cymeryd lle yn y toiledau ger gwesty y Queens unwaith yn rhagor a mae y mater hwn ar yr agenda i'w drafod nes ymlaen. Hefyd wedi cael gwybod bod adeiladwr wedi ei benodi i wneud gwaith ar doiledau chyhoeddus Min y Don a bydd yn rhaid cau y toiledau hyn tra fod y gwaith yn cael ei wneud. 'Roedd wed derbyn sawl cwyn bod y bin ysbwriel oedd yn y gornel o flaen y cyn fanc HSBC wedi cael ei thynnu i ffwrdd ag ei bod wedi cysylltu gyda Chyngor Gwynedd ynglyn a hyn a wedi cael gwybod bydd bin newydd yn cael eu gosod yna. Hefyd 'roedd wedi gofyn i'r arwydd amser aros a oedd ar ochor y ffordd dan yr Eglwys gael ei roi yn nol a wedi cael gwybod bod y mater hwn wedi cael ei anfon ymlaen i'r Adran Drafnidiaeth yn

Gaernarfon. ‘Roedd yn siomedig bod rhai wedi bod yn postio sticer ar tu allan yr hysbysfwrdd ger Siop Morfa ag ‘roedd wedi bod yn glanhau rhain i ffwrdd oherwydd nid oedd gallu darllen yr hysbysiadau tu mewn.
Adroddodd y Cyng. Gwynfor Owen ei fod yn ymddiheuro am beidio a bod yn bresennol yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor oherwydd salwch ond bod amryw o drigolion yr ardal wedi cysylltu ag ef yn ystod y mis diwethaf. Wedi bod yn gweld yr ystad dai newydd a chyfarfod hefo rhai o’r tenantiad newydd. Datganwyd pryder ganddo bod y toiledau ger Gwesty y Queens yn cael eu fandaleiddio, yn siomedig bod adroddiad i weithdrefnau Neil Foden heb gael eu cyhoeddi a a bod Cyngor Gwynedd wedi cael gwybod am hyn ar fyr rybudd a bod Bwrdd Diogelu Cymru wedi dal yr adroddiad yn nol heb ddim esboniad. Llywodraeth Cymru yn edrych ar newid strwythyr yr Awdurdod Tan a bydd hyn yn cael ei drafod mewn cyfarfod o’r Awdurdod Tan ar yr 20ed o’r mis hwn.

**MATERION YN CODI**

**Cynllun Cyllideb**

Adroddwyd bod £22,036.79 (a oedd yn cynnwys costau banc) wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd a bod hyn yn £35,729.46 o wariant yn llai na oedd wedi cael ei glustnodi yn y gyllideb am y flwyddyn 2025/26.

**Nadolig 2025**

Cafwyd y datganiad canlynol gan y Cyng. Simon Turner a Mark Lewis ynglyn ar digwyddiadau nadolig - Mae cynllunio Nadolig 2025 yn mynd yn ei flaen yn gryf gyda agor hwyr yn y nos (siopau a chaffis), gwênylloedd Nadoligaidd, a pharêd lanterenau (dan arweiniad Siôn Corn) ar nos Sadwrm 29 Tachwedd.
Hyd yma, mae rhoddion ariannol ar gyfer Llinellau Golau LED newydd wedi cael eu derbyn gan Mochras, Menai Heating, Middleton Foods, Roc Ardudwy, Peninsiwla Home Improvements, a Caffi’r Castell. Mae Adran Priffyrdd Sir Gwynedd wedi rhoi caniatâd eleni i'r goleuadau LED newydd gael eu hongian ar draws y Stryd Fawr. Yn debyg I’r blynyddoedd blaenorol, bydd goleuadau Nadolig hefyd ar bolion goleuadau stryd yn y dref.
Mae Cadw wedi cytuno'n garedig y gall maes parcio’r Castell gael ei gau i barcio cyhoeddus fel y bydd y maes hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cyfarfod cyhoeddus gyda gwesteiwr enwog yn troi'r goleuadau ymlaen. Bydd canu carol hefyd yn digwydd yn y maes parcio. Mae Roc Ardudwy wedi cytuno'n garedig i ddarparu llwyfan, pabell a system sain ar gyfer y noson yn y maes parcio. Mae plant Ysgol Gynradd Harlech yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth i ddylunio poster a ddefnyddir i hybu'r digwyddiad ar y Cyfryngau Cymdeithasol ac mewn taflenni printiedig. Eleni bydd yna wobrau gwych sy'n ganolbwyntio ar deuluoedd ar gyfer y lanteri gorau yn y barêd. Hyd yma, mae'r gwobrau hyn wedi'u rhoddio gan Caffi Llew Glas, Caddy Café, Hufenfa’r Castell, Castle Hair Studio, The Ship Aground, RED Performance, The Pit Stop Food Bar, Caffi Castell, Bay View Restaurant, Y Gwyllt Snowdonia Wilderness Café, Cae Du Designs, North Wales Sauna Company, Morfa Garage, a Bean & Blŵm.

**Cyrsiau Hyfforddiant I Aelodau ar Clerc**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn e-bost gan Un Llais Cymru yn amlinellau y cyrsiau hyfforddiant oedd ar gael rhwng mis Mehefin a Medi ag ei bod wedi anfon hwn ymlaen i bob Aelod yn barod. Datganodd y Clerc ymhellach bod y Cyng. James Maxwell yn mynd i fynychu hyfforddiant “Cyfarfod y Cyngor – Modiwl 5” ar yr 22ain o’r mis hwn ag “Y Cynghorydd – Modiwl 2” ar y 27ain o’r mis hwn. Adroddodd y Cadeirydd ei fod yn bwriadau mynychu hyfforddiant ag hefyd adroddodd y Cyng. Martin Hughes bod yntau yn bwriadu mynychu hyfforddiant ag y byddant yn anfon y manylion I’r Clerc.

**Y Cwrt Tenis**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi cael gwybod gan Mr. Meirion Griffiths ei fod wedi tacluso o amgylch y cwrt tenis fel o’r blaen. Cytunwyd bod y Cadeirydd yn anfon manylion cyswllt y sawl sydd yn mynd i wneud y gwaith ar y safle uchod i’r Clerc. Cafwyd wybod gan y Cadeirydd ei fod angen un pris arall ynglyn ag archebu offer newydd i cae chwarae Brenin Sior.

**Llochesi Bws**
Cafwyd wybod bod ddim manylion pellach ar gael ynglyn ar mater uchod.

**Y Las Ynys Fawr**
Cafwyd wybod bod ddim manylion pellach ar gael ynglyn ar mater uchod ond bod y Cadeirydd mewn trafodaethau gyda Chyfreithiwr ynglyn ar Les.

**Tir Penygraig**
Adroddodd y Clerc ei bod heb glywed ddim byd gan gwmni Groundsolve ers cyfarfod diwethaf y Cyngor.

**Toiledau Cyhoeddus ger Gwesty'r Queens**
Adroddodd y Clerc ei bod wedi rhoid y mater hwn ar yr agenda oherwydd bod fandaliad wedi creu difrod sylweddol i'r ddau doiled ag eu bod wedi gorfod bod ar gau am gyfnod ond eu bod wedi cael eu hagor ers y 26ain o fis diwethaf ag hefyd maen't yn cael eu cloi dros nos. Adroddodd y Clerc ymhellach bod Swyddog o Gyngor Gwynedd wedi gofyn i'r Cyngor drafod y mater hwn ymhellach ag ei fod yn barod i ddod i gyfarfod o'r Cyngor i drafod y ffordd ymlaen gyda'r Aelodau ar ol hyn. Ar ol trafodaeth ynglyn ar uchod cytunodd y Cadeirydd gysylltu gyda Mr. Bryn Hughes i drefnu ei gyfarfod i drafod y safle uchod.

**HAL**
Yn absenoldeb y Cyng. Reg Chapman adroddodd y Cyng. Simon Turner bod dau Gyfarwyddwyr o Celtic Connections wedi bod i fyny ag eu bod yn chwilio am fuddsoddwyr a bod aelodau o Fwrdd HAL wedi eu cyfarfod a bod Celtic Connections yn dal a diddordeb yn y safle.

**CEISIADAU CYNLLUNIO**

**Disodli'r lloches bresennol gyda thoiled 'eco' ar y 10fed ti Clwb Golff Brenhinol Dewi Sant, Harlech (NP5/61/100S)**
Cefnogi y cais hwn.

**Codi ystafell haul yn y cefn Caereinion, Ffordd Pen Llech, Harlech (NP5/61/T300)**
Cefnogi y cais hwn.

**Cais am Dystysgrif Defnydd Cyfreithiol (Presennol) i ddefnyddio tŷ annedd fel prif breswylfa (Dosbarth Defnydd C3) a llety gwyliau tymor byr (Dosbarth Defnydd C6) (Ail-gyflwyniad) Gwelfor, Tryfar Terrace, Harlech (NP5/61/LUT312B)**
Cefnogi y cais hwn.

**ADRODDIAD Y SWYDDOG ARIANNOL CYFRIFOL**
Adroddodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol bod £54,690.44 yn y cyfrif rhedegol a £114,952.63 yn y cyfrif cadw.

**Taliadau yn ystod y mis**

Cyllid a Thollad - £110.00 – treth ar gyflog y Clerc
Mr. Joe Patton - £84.55 - ad-daliad am nwyddau i'r ardd gymunedol
Mr. G. J. Williams - £324.00 - torri gwair cae chwarae Brenin Sior ar cae peldroed
Mr. Simon Turner - £418.78 – goleuadau nadolig
Mr. Christopher Braithwaite - £139.59 – nwyddau i'r toiledau cyhoeddus ger y castell

**Ceisiadau am gymorth ariannol**

Pwyllgor Neuadd Goffa - £1,000.00
Pwyllgor Hen Lyfrgell - £1,000.00
Cyfeillion Ellis Wynne - £4,577.68 – gweler nodyn o dan gohebiaeth

Fe gafodd y taliadau uchod eu prosesu gan y Cyng. Gordon Howie a wnaeth y Cyng. Tegid John gymeradwyo'r taliadau ag fe roddwyd ganiatad I'r Clerc/Trysorydd I'w talu ar lein neu drwy siec ar ddiwedd y cyfarfod.

**Derbyniadau yn ystod y mis**
Ddim wedi dod i mewn ers cyfarfod diwethaf y Cyngor

**Anfonebau wedi eu talu ers y cyfarfod diwethaf**
Catrin Soraya Williams – £145.00 - gwasanaeth cyfieithu

Adroddodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol bod cyfrif banc elusenol wedi cael ei agor i gae chwarae Brenin Sior a cytunwyd anfon y manylion banc hyn i Mr. Joe Patton fel ei fod yn gallu cwblhau gwahanol geisiadau grant.

**GOHEBIAETH**
**Cyngor Gwynedd – Adran Amgylchedd**
Wedi derbyn llythyr ynglyn yn hysbysu y Cyngor bod cyfle wedi codi i fuddsoddi yn isadeiledd gwyrdd "er budd natur" drwy rhaglen Cymunedau Gwyrdd Gwynedd. Adroddodd y Clerc ei bod wedi anfon y manylion hyn ymlaen i'r Cyng. James Maxwell a oedd wedi cysylltu gyda'r Swyddog priodol ynglyn ar gronfa hon a wedi cael gwybod byddai llwybr natur Bron y Graig yn dod o dan y cynllun. 'Byddai y Cyng. Maxwell yn adrodd mwy am y mater hwn yng nghyfarfod nesa y Cyngor.

**Cyngor Gwynedd – Adran Priffyrdd**
Wedi cael ateb I faterion a godwyd yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor gan yr adran uchold ag yn datgan bod cais y Cyngor i gael arwydd yn dynodi y ffordd cywir i'r castell wedi ei gyfeirio at yr Adran Drafnidiaeth yn Gaernarfon. Nid oedd y Clerc wedi clywed ddim byd pellach ynglyn ar mater hwn.

**Un Llais Cymru**
Wedi cael e-ost gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor bod y cyfarfod blynyddol ynghyd a phwyllgor Ardal Meirionnydd yn cael ei gynnal yn rhithiol ar yr 21ain o'r mis hwn. 'Roedd y Clerc wedi anfon hwn ymlaen yn barod at bob Aelod.

**Cyfeillion Ellis Wynne**
Wedi cael llythyr gan yr uchod yn gofyn am gymorth ariannol gan y Cyngor. Cytunwyd i beidio a rhoid cyfraniad ariannol iddynt ar hyn o bryd am bod y Cadeirydd dal mewn trafodaethau gyda Chyfreithiwr ynglyn ar Les. Sylweddolwyd hefyd bod y cais yn adferol ar gyfer y gwariant yn 2024.

**Ms Pat Elford**
Wedi derbyn e-bost gan yr uchod yn datgan pryder ynglyn a coeden oedd yn tyfu yn Llwybr Natur Bron y Graig tu cefn i'w thy. Adroddodd y Clerc ei bod wedi pasio yr e-bost hwn ymlaen i'r Cadeirydd yn barod.

**Mr. Giles Bentham**
Wedi derbyn e-bost gan yr uchod ynglyn ag amrywiol faterion yn ymwneud ar Cyngor

**ARWYDDWYD............................................**Cadeirydd

**DYDDIAD....................................................** 